Cymraeg yn “ganolog” i’r gwasanaeth iechyd meddwl : Golwg360

Dylai bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin fel mater “canolog” i wasanaeth iechyd meddwl Cymru, yn ôl Comisiynydd y Gymraeg.

“Rydym ni wedi clywed heddiw am hanes pobol sydd wedi mynd trwy’r gyfundrefn ac wedi derbyn triniaeth. Ac rydym ni wedi clywed, dro ar ôl tro, cymaint yn well oedd y driniaeth trwy eu mamiaith. Os ydych chi’n fregus ac yn teimlo’n isel ac yn ceisio mynegi hynny trwy ail iaith – dyw e ddim yn dderbyniol. Ni ddylai fod hynny yn digwydd yng Nghymru.”

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn mynd ati yn awr i bwyso ar y Cynulliad i gyflwyno camau er mwyn gallu gosod safonau iaith Gymraeg o fewn y sector iechyd.

Hefyd yn cymryd rhan yn y drafodaeth roedd aelod bwrdd Mind Cymru, Marian Wyn Jones, wnaeth nodi bod angen “cryfhau hyder” sgiliau iaith, gweithwyr yn y maes iechyd meddwl.

“Yn sicr mae ‘na brinder ymarferwyr iechyd meddwl drwyddi draw ym Mhrydain ond yn y Gymraeg mae’n ddiddorol nodi bod yna lai o siaradwyr Cymraeg yn gweithio ym maes iechyd meddwl bron nag yn unrhyw faes arall,” meddai wrth **golwg360**.

“Felly mae angen cryfhau apêl yr yrfa yma, ac mae angen cryfhau hyder pobol sydd yn gweithio yn y maes i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ond mae hefyd angen cynyddu’r nifer sy’n hyfforddi i fod yn seicolegwyr ac yn feddygon. Ac i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu trwytho.”

Darllen rhagor : Golwg360

Erthygl gan y Comisiynydd ar meddwl.org

‘Comisiynydd y Gymraeg yn galw am fwy o siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd meddwl’ : meddwl.org